For Distribution to CPs

BBC Trust
180 Great Portland Street
London W1W 5QZ

T. [redacted]
Facsimile/Email

BBC Trust

From the Chairman

Rt Hon Carwyn Jones AM
First Minister
The National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

6 October 2011

Today the BBC Trust launches a public consultation on the future shape of the corporation. I wanted to share with you the background to this and how the proposals we are consulting on would affect the BBC's services in Wales.

Entitled *Delivering Quality First*, it follows a strategy for the BBC published by the Trust last year, and a settlement agreed with the Westminster Government that sees the licence fee frozen at its current level until March 2017 and the BBC assuming additional funding responsibilities.

This means the BBC will have to make savings of at least 16 per cent of our annual budget by 2016/17, although the Director General has set a target of 20 per cent. The aim is to target the additional four percent for reinvestment back into programming areas to boost quality and distinctiveness.

This won't be easy. Today we have published for consultation a set of proposals from the Director General and his management team for how we can do this.

The starting point is efficiencies. We at the Trust are determined that the BBC does everything it can to save money through measures like making back office functions as efficient as possible, streamlining as a result of the use of technology and reducing the number of senior managers. The Director General has undertaken a thorough process and we are satisfied that his proposals in this area, which should deliver around £400 million savings per year by 2016/17, should make up more than half of the overall savings we need to find.

Most of the remainder will need to be made through changes to services. This is what we want the public's views on.

Although all services need to play their part in making efficiency savings, the proposals we are consulting on reflect deliberate choices about where to protect investment on air and on screen.

cont/...2

Among management's proposals for services are plans to protect the flagship channels, BBC One and BBC Two particularly in peak time, while redefining the role of BBC Three and BBC Four in relation to them, protecting Radio 4 by keeping its underlying content spend stable and focusing investment in local radio at the most popular times of the day, with content shared across regions at other times.

Proposals for the BBC's services in Wales include maintaining the existing level of investment in news bulletins, and increasing the impact of programmes in other genres. There are also plans for a significant investment in the amount of network programming produced in Wales. For radio, investment in Radio Wales would be prioritised in peak hours and the daily news services, and a simpler schedule would be broadcast. For Radio Cymru, investment would be prioritised in core news services and coverage of Welsh culture and events.

While not pre-empting the outcome of the consultation, I should say that the Trust agrees with the general direction of travel set out in management's proposals, which can be read in full here: http://www.bbc.co.uk/bbctrust/consult/delivering_quality_first.shtml

The BBC is far from perfect, but it is a great institution and at its best a great broadcaster. But as a publicly funded body we cannot be immune from current economic realities. We should be able to run an outstanding public service broadcaster on £3.5 billion a year.

We won't be able to do everything we want. But by focusing on our core services, delivering high quality, distinctive programmes and staying true to our public service mission to inform, educate and entertain, we should be able to continue to live up to our reputation as a respected, trusted broadcaster of which the country can be proud.

I hope you will play a part in helping us do this by participating in our consultation. You can contribute by visiting http://www.bbc.co.uk/bbctrust/consult/delivering_quality_first.shtml

If you would like to discuss any of this further, the National Trustee for Wales, Elan Closs Stephens, or I would of course be happy to do so.

Yours sincerely

Lord Patten of Barnes CH
Chairman, BBC Trust

BBC Trust
180 Great Portland Street
London W1W 5QZ

T. 0203 219 [redacted]
bbc.co.uk/bbctrust

BBC Trust

From the Chairman

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Y Prif Weinidog
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

6 Hydref 2011

Annwyl Brif Weinidog,

Heddiw, mae Ymddiriedolaeth y BBC yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â strwythur y gorfforaeth ar gyfer y dyfodol. Roeddwn am rannu cefndir hyn â chi, a sôn am sut byddai'r cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch yn effeithio ar wasanaethau y BBC yng Nghymru.

Enw'r ymgynghoriad yw *Rhoi Ansawdd yn Gyntaf*, ac mae'n dilyn strategaeth y BBC a gyhoeddwyd gan yr Ymddiriedolaeth y llynedd, a setliad y cytunwyd arno gyda Llywodraeth San Steffan sy'n sicrhau bod ffi'r drwydded yn cael ei rhewi ar y lefel bresennol tan fis Mawrth 2017, a bod y BBC yn ysgwyddo cyfrifoldebau cyllido ychwanegol.

Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i'r BBC wneud arbedion o 16 y cant o leiaf ar ein cyllideb flynyddol erbyn 2016/17, er bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi gosod targed o 20 y cant. Cedwir y pedwar y cant ychwanegol ar gyfer ail-fuddsoddi'n benodol mewn meysydd rhaglenni er mwyn rhoi hwb i ansawdd a hynodrwydd.

Fydd hyn ddim yn hawdd. Heddiw, at ddibenion ymgynghori, rydym wedi cyhoeddi cyfres o gynigion gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'i dîm rheoli ynglŷn â sut gallwn wneud hyn.

Arbedion effeithlonrwydd yw'r man cychwyn. Rydym ni yma yn yr Ymddiriedolaeth yn benderfynol y bydd y BBC yn gwneud popeth o fewn ei allu i arbed arian drwy fesurau fel gwneud gwaith cefn swyddfa mor effeithlon â phosib, ac o ganlyniad, symleiddio defnyddio technoleg a lleihau nifer yr uwch reolwyr. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi ymgymryd â phroses drylwyr ar waith. Rydym yn fodlon y bydd ei gynigion ar gyfer y maes hwn yn sicrhau arbedion o tua £400 miliwn y flwyddyn o leiaf erbyn 2016/17, sef dros hanner cyfanswm yr arbedion y mae angen i ni eu gwneud.

Bydd angen i ran fwyaf o'r arbedion fydd dros ben gael eu gwneud drwy newid gwasanaethau. Rydym am glywed barn y cyhoedd am hyn.

Er fod yn rhaid i'r holl wasanaethau wneud eu rhan wrth ddarparu arbedion effeithiolrwydd, mae'r cynigion yr ydym yn ymgynghori ynglŷn â nhw yn adlewyrchu penderfyniadau bwriadol ynglŷn â lle i warchod y buddsoddiad ar y sgrin ac ar yr awyr.

.../2

Ymysg y cynigion gan y rheolwyr ar gyfer gwasanaethau, ceir cynlluniau i amddiffyn y sianeli blaenllaw BBC One a BBC Two yn arbennig ar amser brig, ac ailddiffinio rôl BBC Three a BBC Four mewn perthynas â nhw, gwarchod Radio 4 drwy gadw ei wariant sylfaenol ar gynnwys yn sefydlog a ffocysu buddsoddi mewn radio lleol ar adegau mwyaf poblogaidd y dydd, gan rannu cynnwys ar draws rhanbarthau ar adegau eraill.

Mae'r cynigion ar gyfer gwasanaethau'r BBC yng Nghymru yn cynnwys cynnal y lefel bresennol o fuddsoddi mewn bwletinau newyddion, a chynyddu effaith rhaglenni mewn *genres* eraill. Ceir cynlluniau hefyd i fuddsoddi'n helaeth yn y rhaglenni rhwydwaith a gynhyrchir yng Nghymru. Yn achos y radio, rhoddir y flaenoriaeth ar yr oriau brig a'r gwasanaethau newyddion dyddiol wrth fuddsoddi yn Radio Wales, a byddai amserlen symlach yn cael ei darlledu. Wrth fuddsoddi yn Radio Cymru rhoddir y flaenoriaeth ar wasanaethau newyddion craidd a darlledu am ddiwylliant a digwyddiadau yng Nghymru.

Heb gymryd canlyniadau'r ymgynghoriad yn ganiataol, dylwn ddweud bod yr Ymddiriedolaeth yn cytuno â'r cyfeiriad cyffredinol sydd wedi'i amlinellu yng nghynigion y Weithredaeth, y gellir eu darllen yn llawn yma: http://www.bbc.co.uk/bbctrust/consult/delivering_quality_first.shtml

Nid yw'r BBC yn berffaith o bell ffordd, ond mae'n yn sefydliad arbennig ac ar ei orau mae'n ddarlledwr gwych. Ond, fel corff sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus, ni allwn osgoi'r gwirioneddau economaidd presennol. Dylem allu cynnal gwasanaeth darlledu cyhoeddus rhagorol ar £3.5 biliwn y flwyddyn.

Ni fyddwn yn gallu gwneud popeth rydym am ei wneud. Ond, drwy ganolbwyntio ar ein gwasanaethau craidd, darparu rhaglenni nodedig o safon uchel a chadw'n driw at ein cenhadaeth gwasanaeth cyhoeddus i hysbysu, addysgu a diddanu, dylem allu parhau i gyflawnhau ein henw da fel darlledwr y gellir ei barchu ac ymddiried ynddo, ac y gall y wlad fod yn falch ohono.

Rwy'n gobeithio y gwnewch chi ein helpu i wneud hyn drwy gymryd rhan yn ein hymgynghoriad. Gallwch gyfrannu drwy fynd i
http://www.bbc.co.uk/bbctrust/consult/delivering_quality_first.shtml

Os hoffech drafod hyn ymhellach byddwn i neu Elan Closs Stephens, Ymddiriedolwr Cenedlaethol Cymru, yn hapus i wneud hynny wrth gwrs.

Yn gywir iawn

Yr Arglwydd Patten
Cadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC